

# Cenn@d

TACHWEDD 16 2022 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 90

## Ceisio Cyfiawnder yn Qatar

Yn ystod y dyddiau nesaf fe fydd llygaid y byd yn troi i gyfeiriad Qatar, wrth i gystadleuaeth bêl-droed Cwpan y Byd FIFA gychwyn ddydd Sul, 20 Tachwedd, ac am y tro cyntaf ers 1958 mae Cymru, wrth gwrs, yn rhan o'r cystadlu. Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn edrych ymlaen at y gystadleuaeth ond yn codi sawl cwestiwn ynghylch addasrwydd Qatar i gynnal y gystadleuaeth yn wyneb eu hanes trychinebus ym maes hawliau dynol a goddefgarwch crefyddol.

Erbyn hyn mae'r cynnwrf yn cynyddu yng Nghymru, wrth i furluniau, baneri a cherfluniau ymddangos ar hyd a lled y wlad. Yn y llun gwelir yr het fwcad a osodwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Rob Page a'i garfan o 26 chwaraewr, a braf bod yr enwau profiadol fel Bale, Allen a Ramsey yn iach i chwarae. Diolch i blant y Rhondda am gyhoeddi'r enwau i ni rai dyddiau yn ôl, a gobeithiwn y bydd y garfan gyfan yn profi llwyddiant ar y daith hon. Bydd llawer o aelodau'r Wal Goch hefyd yn teithio allan i'r wlad, er bod nifer wedi dewis peidio â gwneud y daith oherwydd agwedd Qatar at hawliau dynol a chamdriniaeth y wlad o ferched a'r gymuned LGBTQI+ yn arbennig. Mae'r elusen Christians in Sport wedi paratoi erthygl yn dwyn y teitl, 'A ddylai chwaraewyr Cristnogol foicotio digwyddiadau mewn mannau dadleuol fel Qatar?' Cliciwch yma i fynd i'w gwefan: <https://christiansinsport.org.uk/resources/askcis/should-christian-sportspeople-boycott-events-in-controversial-places/>

Bydd Cymru yn chwarae eu gêm gyntaf ddydd Llun, 21 Tachwedd, am 7 o'r gloch y nos, a hynny yn erbyn Unol Daleithiau America. Yna, byddant yn herio Iran ddydd Gwener, 25 Tachwedd, am 10 o'r gloch y bore, cyn y gêm fawr yn erbyn Lloegr ddydd Mawrth, 29 Tachwedd, am 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd y gystadleuaeth gyfan yn cael ei chwarae dros bedair wythnos, gyda'r gêm derfynol brynhawn Sul, 18 Rhagfyr, am 3 o'r gloch.

Efallai y bydd eglwysi am ystyried yn ofalus amseriad oedfaon drama'r geni a phartion Nadolig y plant ar y Sul hwnnw rhag torri ar draws mwynhad y gêm derfynol i lawer o deuluoedd. Bydd rhai eglwysi yn darlledu'r



Huw o flaen yr het yn Aberystwyth

gemau yn eu heglwysi, gan greu gofod diogel a chartrefol i deuluoedd ddod at ei gilydd, ac yn ei weld fel cyfle cenhadol i bontio â'r gymuned. Byddai Cenn@d yn falch o gael gwybodaeth am unrhyw gynlluniau sydd gan eglwysi Cymraeg i nodi'r achlysur. Bu llawer o blant yn casglu sticeri'r timau ers amser, a braf eleni oedd gweld sawl llyfr Cymraeg i blant yn rhoi sylw i ymgais Cymru. Yn yr un modd difyr oedd gweld cân eiconig Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd', yn cael ei mabwysiadu fel y gân swyddogol ar gyfer yr ymgyrch, a chynulleidfia ehangach eto fyth yn cael clywed geiriau'r gân arbennig hon. Dymuniadau gorau i dîm Cymru felly dros yr wythnosau nesaf.

Ers y cyhoeddiad y byddai'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal eleni yn Qatar bu llawer o densiynau a phroblemau gyda'r dewis i fynd i wlad Arabaidd gaeth, a chyhuddiadau o lwgrwobrwy swyddogion er mwyn denu'r gystadleuaeth i'r wlad. Gwladwriaeth Arabaidd sofran yn y Dwyrain Canol yw Qatar. Fe'i lleolir ar ornyys ar arfordir gogledd-ddwyrainol Arabia ar lannau'r Gwlff yng ngorllewin Asia. Mae'n ffinio â Saudi Arabia i'r de ac mae ynys Bahrain yn gorwedd i'r gorllewin. Ei ffiniau eraill yw Gwlff Persia. Yn 2021 roedd poblogaeth

Qatar yn 2.2 miliwn, gyda dim ond 218,000 o frodorion Qatar ac 1.9 miliwn o alltudion. Fe'i rheolwyd gan Brydain nes iddi ddod yn annibynnol yn 1971. Mae teulu Al Thani wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei rheolaeth ers canol y 19g, ac mae Qatar heddiw dan reolaeth unbenaethol Emir Tamim bin Hamad Al Thani.

Qatar yw gwlad gyfoethoga'r byd, yn ôl y pen, gyda thwf uwch nag unrhyw wlad Arabaidd arall. Mae ganddi fwy o nwy wrth gefn nag unrhyw wlad arall ar y ddaear; mae ei chronfa wrth gefn dros 25 biliwn casgen. Mae'r rhan fwyaf o bobl frodorol Qatar yn cadw'n agos iawn at grefydd Islam, a chyfraith Sharia yw prif sail cyfreithiau'r wlad. Islam yw crefydd swyddogol y wlad, ac mae 66% o'r boblogaeth yn dilyn y grefydd honno; mae 15% yn Hindwïaid, a Christnogion yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth. Mae'r gymuned Gristnogol yn Qatar yn gymysgedd amrywiol o alltudion o Ewrop, o ogledd a de America, y Dwyrain Canol ac Affrica. Nid oes unrhyw grwpiau cenhadol tramor yn cael gweithredu'n agored yn y wlad. Ym mis Mai 2005 cyflwynodd Llywodraeth Qatar ddarn o eiddo ar gyrion Doha i arweinwyr yr eglwysi Cristnogol yn y wlad ar gyfer adeiladu eglwys.

Wedi dewis Qatar fel lleoliad Cwpan y Byd yn 2022 bu'n rhaid recriwtio tua hanner miliwn o weithwyr i adeiladu'r stadiwm. Bu cryn feirniadu ar yr amodau gwaith, gyda chyhuddiadau o gaethwasiaeth ac atal cyflogau. Roedd y gweithwyr yn aml yn byw dan amodau budr gyda 12 i un ystafell ac yn aml yn cael eu gadael heb unrhyw fwyd. Roedd diwrnod gwaith yn ymestyn dros 15 awr i lawer, a hynny mewn gwres llethol. Bu'n rhaid i'r wlad addo adeiladu 12 stadiwm newydd mewn pryd ar gyfer y trnamaint, ac er mwyn cyflawni hyn bu'r gost ddynol yn uchel. Mae Cydffederasiwn yr Undebau Llafur Rhyngwladol yn amcangyfrif bod cynifer â 4,000 o adeiladwyr alltud wedi marw wrth gyflawni'r gwaith.

Her arall yn Qatar yw'r agweddau at hawliau dynol a goddefgarwch, gyda merched a grwpiau'r gymuned LGBTQI+

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

'Pa sawl torth sydd gennych?'  
Tudalen 3

Cyflwyno Medal Gee  
yng Nghwmlllynfell  
Tudalen 5

Ffrwyth gweddi yn  
amlwg yn Noc Penfro  
Tudalen 7

## Ceisio Cyfiawnder yn Qatar

(parhad o dudalen 1)

yn dioddef erledigaeth enbyd. Mae gweithgaredd rhywiol o'r un rhyw wedi'i wahardd yn llwyr yn Qatar, gyda chosb o hyd at saith mlynedd yn y carchar, neu hyd yn oed farwolaeth i Fwslimiaid. Mae lefel yr erledigaeth sy'n wynebu'r Cristion yn Qatar yn dibynnu i raddau helaeth p'un a yw'n frodor o Qatar ai peidio. Gweithwyr sydd wedi symud yno o wledydd eraill yw'r rhan fwyaf o Gristnogion Qatar; mae'r credinwyr hyn yn wynebu pwysau a gwahaniaethu ac mae eu heglwysi yn aml yn cael eu monitro'n fanwl gan y llywodraeth, ond maen nhw'n fwy rhydd i addoli.

Fodd bynnag mae'n stori wahanol i gredinwyr brodorol. Mae bywyd yn llawer anoddach iddyn nhw. Mae credinwyr newydd yn debygol o wynebu pwysau eithafol gan eu teulu a'u cymuned Fwslimaidd, os bydd eu ffydd Gristnogol yn cael ei darganfod. Mae merched a merched Cristnogol yn arbennig o agored i gael eu rhyddid wedi'i gwtogi'n ddifrifol gan y teuluoedd Mwslimaidd – gan gynnwys cael eu caethiwo yn y tŷ heb fynediad at gyfathrebu allanol. Nid yw Qatar yn cydnabod yr hawl i droi oddi wrth Islam tuag at grefydd arall yn swyddogol. Yn yr un modd, ni chaniateir i Gristion o gefndir Mwslimaidd briodi rhywun nad yw'n Fwslim.

Un mudiad sy'n gweithio'n ddyfal dros hawliau dynol yn y wlad yw Amnest



Rhyngwladol, ac mae ganddynt adnoddau ar eu gwefan yn sôn am eu hymgyrchoedd gwahanol. Mae adroddiad Amnest ar baratoadau Qatar ar gyfer cynnal Cwpan y Byd – 'Pam ydych chi eisiau gorffwys?': camdriniaeth barhaus o weithwyr domestig yn Qatar – yn amlgu sut mae awdurdodau Qatar yn methu cynnal arolygiadau o weithleoedd, a sut mae'r diwygiadau diweddar yn methu mynd i'r afael â cham-drin systemig dros y wlad. Gallwch ddarllen mwy ar eu gwefan: <https://www.amnesty.org.uk/issues/qatar-football-world-cup-2022>

Elusen arall sy'n weithgar o ran hawliau dynol yw Open Doors, ac ar gyfer Cwpan y Byd mae ganddynt gyfres o adnoddau i eglwysi a theuluoedd, gan gynnwys llyfr sticeri ar gyfer plant. Meddai Open Doors, 'Oeddech chi'n gwybod bod saith o'r gwledydd sy'n chwarae yng Nghwpan

y Byd eleni ar Restr Gwyllo'r Byd Drysau Agored? Er ein bod yn cydnabod y bydd llawer o bobl yn dewis peidio â gwyllo'r twrnaint, am wahanol resymau, credwn fod y twrnaint yn cynnig cyfle gwerthfawr i godi cefnogaeth i Gristnogion sy'n cael eu herlid sy'n byw yn Iran, Saudi Arabia, Morocco, Tunisia, Mecsico, Camerŵn a'r genedl sy'n cynnal y gystadleuaeth, sef Qatar.' Am fwy o fanylion, ewch i'r wefan: <https://www.opendoorsuk.org/resources/world-cup/>

Dyma weddi gan Open Doors:

Hollalluog Dduw, diolchwn i Ti am Dy bresenoldeb gyda'th bobl yn Qatar. Gofynnwn i ti eu bendithio, eu cryfhau a'u cysuro ar adegau o dreialon, a phryd bynnag y mae'n ymddangos nad oes gobaith na ffordd allan. Gweddiwn ar i ti amddiffyn ein brodyr a chwiorydd, gan dyfu dy eglwys yn Qatar. Defnyddia Gwpan y Byd FIFA 2022 i dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu Cristnogion Qatar, er mwyn sicrhau mwy o ryddid crefyddol iddynt. Amen.

Wrth i dîm pêl-droed Cymru gychwyn ar eu taith, dymunwn bob rhwyddineb a diogelwch iddynt. Yn yr un modd hyderwn y bydd y cefnogwyr yn cadw'n ddiogel gan ddilyn deddfau a chyfraith y wlad. Gobeithio hefyd y bydd cyfle iddynt dystio drwy esiampl a gweithred i'r ffordd gariadus a goddefgar o fyw rydym yn ei harddel yng Nghymru, ac y bydd modd herio pob anghyfiawnder a welir yn y wlad.



**Dydd Gweddi'r Byd**

# Cynhadledd

i baratoi ar gyfer  
**Dydd Gweddi 2023**

**Dydd Mawrth,  
22 Tachwedd 2022**

**10 tan 1 o'r gloch**

**Capel y Groes, Wrecsam  
Paned o 10 o'r gloch ymlaen**

**Croeso i bawb  
Mynediad £2**



**Dydd Gweddi'r Byd**

# Cynhadledd

i baratoi ar gyfer  
**Dydd Gweddi 2023**

**Dydd Mercher,  
30 Tachwedd 2022**

**10.30 tan 12 o'r gloch**

**Festri Capel Heol Awst,  
Caerfyrddin**

**Paned o 10 o'r gloch ymlaen  
Mynediad £2**



## 'Pa sawl torth sydd gennych?'

Gan ei fod yn parhau yn y gadair hyd Gymanfa Gyffredinol 2023, ni chafwyd 'araith ymadawol' gan Lywydd y Gymanfa, y Parch. Evan Morgan, Caerdydd, eleni. Ond fe gafwyd Oedfa'r Llywydd, a manteisiwyd ar y cyfle i'n herio a'n hannog fel Eglwys hanner ffordd drwy ei dymor! Cawsom bregeth rymus a heriol ganddo wedi ei sylfaenu ar hanes Porthi'r Pum Mil. ( Marc 6:30-44)

### Rhigol neu arloesi

Byrdwn y bregeth oedd y rheidrwydd i ymateb i anghenion ein cymdeithas yn enw Iesu Grist.

Er gwaethaf y gŵyn gyffredin fod argyfwng Covid-19 wedi niweidio bywyd a gwaith yr eglwys, bu hefyd yn gyfrwng i hybu arloesi a mentro, ac yn sbardun i bobl ymroi i gefnogi ei gilydd. Erys egni a brwdfrydedd a gweithwyr yn ein plith o hyd, meddai'r pregethwr, a dyletswydd pawb ohonom yw darganfod hynny, yn ogystal â pha gyfleoedd ac adnoddau a heriau sydd gan Dduw ar ein cyfer.

Pwysleisiodd mai *arwydd* yw'r wyrth o'r hyn all ddigwydd pan roddwn ein hymddiriedaeth yn Nuw a gweithredu mewn ffydd yn ei enw. Yn hynny o beth, meddai, daw'r *arwydd* yn *allwedd* fydd yn agor clo drws gwasanaeth, ac o ymroi mewn gwasanaeth cawn atgyfnerthiad ffydd.

### Gwasanaeth?

Fel modurwyr yn gyrru i fyny'r A470 gan basio'r arwyddion am nifer o bentrefi, heb fyth ymweld â hwy, yr ydym ninnau hefyd, meddai'r Llywydd, mewn perygl o anwybyddu'r hyn a ddarparodd Duw ar ein cyfer.

Cyfeiriodd at ferch ifanc a holodd yr Archesgob Stephen Cottrell, archesgob Efrog, pam yr aeth i'r offeriadaeth? Rhannodd â'r Archesgob ei phrofiad o Gristnogion. Roedd rhai, meddai, yn ymddwyn fel petai eu ffydd yn ddim mwy na hobi, ac nid oedd eu cred, i bob golwg



Y Parchg T Evan Morgan



Llun: <https://www.freebibleimages.org/photos/jesus-5000/>

allanol, yn effeithio dim ar eu bywydau. Byddai eraill yn ymroi cymaint i'w crefydd ac yn gwasgu eu ffydd mor dynn nes eu bod yn dychryn pawb a ddynesai atynt.

'Oes yna ffordd arall?' oedd cwestiwn y ferch i'r Archesgob. Oes, meddai'r pregethwr, a ffordd gwasanaeth yw honno.

Arwyddo *gwasanaeth* a wna'r wyrth, a thynnodd sylw at eiriau Elinor Roosevelt, un a gyflawnodd gymaint dros bobl mewn angen drwy fudiad y Cenhedloedd Unedig. 'Gellwch gyflawni cymaint,' meddai, 'os ydych yn fodlon byw heb y clod am hynny.'

### 'Tydi sy'n haeddu'r clod ...'

Crist sy'n haeddu'r clod, a'n baint yw ei wasanaethu. Defnyddia ni er ein bod yn amherffaith, gan ein hannog i ymestyn at yr anghenus: y rhai sy'n pryderu am y cynnydd mewn costau byw, y rhai a gamdrinnir neu sy'n teimlo'n wrthodedig neu sy'n dioddef rhagfarn. Neges y ffydd a ymddiriedir i ni i'w rannu yw fod Duw yn eu caru. A rhaid bod yn barod, felly, i fentro'r tu hwnt i'r cyfarwydd. Ni allwn obeithio gwneud hynny heb baratoi ein hunain.

Anogodd y Llywydd ni fel eglwys i wisgo ein hesgidiau gwaith! Dyfynnodd A. A. Milne gan gyfeirio at Christopher Robin yn gwisgo'i 'Big Boots' yn barod am antur! Gwahanol iawn i un o'i gymdogion, meddai, sydd byth a hefyd mewn sliperi 'mules', ac sy'n methu ymlwybro'n bell o ddrws y tŷ yn y gaeaf oherwydd hynny. Geilw ar hwn a'r llall i'w helpu, i roi'r biniau allan ac estyn y peth yma a'r peth arall. Gwae'r eglwys rhag mynd yn debyg iddi, a methu ymateb mewn gwasanaeth.

Y gamp o hyd yw adnabod yr Arglwydd Iesu Grist lle bynnag y bydd ac, o glywed ei alwad, ymateb iddo ef a'i alwad.

### Egni'r oedfa

Nodweddwyd y bregeth a'r oedfa gan egni a brwdfrydedd, ond go brin y gellir cyfleu hynny ar dudalennau *Cenn@d!*

Cyfrwng sy'n mynnu gwrandawriad yw pregethu, a gellir gwyllo Oedfa'r Llywydd ar sianel YouTube [Eglwys Bresbyteriaid Cymru](#).

## Cyfle i weithio gyda Chymorth Cristnogol Cymru



Ydych chi'n awyddus i weithio ar y cyd ag eglwys ac eraill er mwyn eu hysbrydoli i fynd ati i weithredu i oresgyn tlodi ym mhob cwr o'r byd? Mae Cymorth Cristnogol yn chwilio am bobl o bob cefndir i ymuno â'r tîm yng Nghymru a gwneud gwahaniaeth.

Mae'r swyddi canlynol yn agored ar gyfer ceisiadau:

- Swyddog Ysgogi Eglwys a Chodi Arian Cymru (De/De-ddwyrain Cymru)
- Swyddog Cyfryngau, Cyfathrebu ac Adnoddau Cymru
- I ymgeisio a gweld cyfleoedd eraill o fewn Cymorth Cristnogol, ewch i: <https://jobs.christianaid.org.uk/>

Mae ceisiadau cynnar yn cael eu hannog gan fod cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn gyson, a gellid llenwi'r swyddi cyn i'r dyddiad cau ddog i ben.

## Rhoi Diolch trwy Roi

Mae swyddogion Capel Bronant, un o gapeli bach Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, yn hoffi arbrofi! Eleni, bwriad yr ŵyl ddiolchgarwch oedd estyn allan i'r gymuned yn ogystal â chefnogi banc bwyd Aberystwyth. Er mwyn ceisio gwneud hynny, trefnwyd swper bara a chaws, gyda'r nod o fynegi ein diolch trwy'r weithred o roi. Agorwyd y noson â defosiwn dwyieithog, gyda nifer dda o'r aelodau yn cymryd rhan. Roedd mynediad i'r swper yn rhad ac am ddim, ond gwahoddwyd cyfraniadau i'r banc bwyd. Trwy haelioni'r gymuned casglwyd £250 a llwyth sylweddol o nwyddau.

Ar wahân i gefnogi gwaith y banc bwyd, bu'r digwyddiad o werth mewn ffyrdd eraill hefyd. Daeth â Chymry a'r di-Gymraeg at ei gilydd i gydaddoli, gan gynnwys rhai sydd heb gyswllt amlwg â chapel neu eglwys. Bu'r cymdeithasu'n gynnes a chafwyd cyfle i gwrdd â nifer o wynebau newydd. Roedd swyddogion y capel wedi bod â thaflen am y noson o ddrws i ddrws, a bu hynny yn fodd o siarad, yn enw'r capel, â newydd-ddyfodiaid a thrigolion eraill y pentref. Defnyddiwyd y dudalen Facebook cymunedol i hysbysebu'r noson, a gwelwyd honno gan bobl sydd heb unrhyw gysylltiad â'r capel. Cawsom ein sobri gan y profiad o gludo'r nwyddau i'r banc bwyd wrth ddeall mwy am y galw aruthrol sydd arnyn nhw a'r anghenion dwys o fewn rhai o'n cymunedau. Gwyddom y bydd angen i ni ddiolch eto, a hynny'n gyson, am ein holl fendithion trwy roi yn hael i gefnogi eu gwaith.

*Delyth Humphreys*



## Uno a Diolch yn Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon

Roedd gwasanaeth Sul, 9 Hydref, yn wasanaeth arbennig iawn dan ofal ein Gweinidog, y Parch. Huw Powell-Davies. Gwahoddwyd cyn-lywydd Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, Marian Lloyd Jones, i roi sêl bendith swyddogol ar uniad dwy eglwys, sef Penbryn a Charmel.

Canlyniad hapus y briodas yw ffurfio, o'r newydd, UN eglwys ac UN gynulleidfa o ffyddloniaid a adnabyddir o hyn ymlaen a hyd byth fel Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon.

Norman Closs oedd yn gyfrifol am y cyhoeddiadau, gyda Maryl Rees yn chwarae'r organ. Darllenwyd o'r Ysgrythur, sef Effesiaid 1:15-23, gan R. Alun Evans. Fe weinyddwyd y Cymun Sanctaidd yn rhan annatod o'r addoliad – ein gwasanaeth cyntaf fel UN eglwys newydd sbon. Mwynhawyd y cymdeithasu brwdfrydig gyda phaned a bisgedi blasus ar ddiwedd yr oedfa arbennig hon.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ddydd Sul, 23 Hydref, gyda nifer o'r aelodau'n cymryd rhan i fynegi ein diolch am y bendithion niferus a ddaw i'n rhan bob diwrnod, yn ddi-ffael. Derbyniwyd rhoddion o duniau/pacedi bwydydd ac o arian tuag at ein Banc Bwyd lleol yn Nhreffynnon, a gwnaed casgliad o £150 yn ychwanegol at y bwyd.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Grŵp Rhieni a Babanod – y 'Baby Brews' – am eu harddangosfa dymhorol ddeniadol a hyfryd ar gyfer y capel.

*Geraint Jones*





## Cyflwyno Medal Gee yng Nghwmllynfell

Eleni cyflwynwyd 21 o fedalau Gee yn y gogledd, mewn cyfarfod cofiadwy yn Llanuwchllyn. Serch hynny, dim ond tri pherson a enwebwyd yn y de eleni, a'r rheini wedi eu gwasgaru ar draws y de. Eisioes cafwyd hanes cyflwyno'r fedal gyntaf, a hynny ym Methel, Mynachlog-ddu, a bydd un arall eto'n cael ei chyflwyno ddiwedd mis Tachwedd i'r Parch. Tom Defis mewn cyfarfod Cwrdd Chwarter yn ardal Caerfyrddin. I Gwmllynfell yr aeth y drydedd fedal, a hynny i Mrs Pat Jones Evans, priod annwyl y Parch. Euros Jones Evans, a chyflwynwyd y fedal iddi yno mewn oedfa arbennig ar 30 Hydref.

Capel Brynlllynfell, sef capel Presbyteriaidd Cwmllynfell, oedd y lleoliad ar gyfer y cyflwyno, a dyma'r eildro yn ei hanes i fedal Gee gael ei chyflwyno yno. Yn 2010 cyflwynwyd medal i Mrs Nanda Williams am 68 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol Sul. Y tro hwn, Pat Jones Evans oedd wedi ei henwebu, a hynny ar ôl 62 mlynedd o wasanaeth diflino fel athrawes ysgol Sul yn y capel.

Dechreuodd Pat fynychu'r ysgol Sul yn 1950, ac yn bymtheg oed fe'i penodwyd yn athrawes, swydd y mae wedi ei dal hyd heddiw. Fe'i penodwyd yn arolygwr yr ysgol Sul, ac yna'n flaenores yn y capel. Mae hanes cyfoethog i'r ysgol Sul ym Mrynlllynfell, a dengys cofnodion yr Henaduriaeth yn 1980 fod mwy o blant yn yr ysgol Sul yno na'r un eglwys arall yn henaduriaethau'r de – dros 50 o blant ar y pryd. Mae Pat yn parhau i fod yn athrawes yno, ac erbyn hyn mae 'na chwech o blant yn dod yn ffyddlon a rheolaidd ati ar y Sul. Bu Pat yn trefnu ac yn cynnal oedfaon teuluol yn rheolaidd, gan baratoi'r plant i gymryd at y rhannau arweiniol. Mae'n Gristion o argyhoeddiad ac yn credu mewn paratoi trylwyr ar gyfer y wers wythnosol er mwyn cyflwyno gwirionedd Efengyl Iesu Grist i'r plant o dan ei gofal.

Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn wedi dod ynghyd, ac wedi gair o groeso gan y llywydd, Dr Nia Cole Jones, arweiniwyd yr oedfa gan y Parch. Aled Davies, oedd wedi teithio yno i gyflwyno'r fedal ar ran y teulu Gee a Chyngor yr Ysgolion Sul. Cafwyd canu arbennig, gyda merch ifanc o'r capel, Ffion Eleri Anderson, wrth yr organ. Ar ddiwedd yr oedfa cyflwynwyd y fedal i Pat, a chafwyd gair o ddiolch a gwerthfawrogiad ganddi.

Wedi cyhoeddi'r fendith roedd yna wledd wedi ei pharatoi yn y festri, a chafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a blasu cacen arbennig oedd wedi'i threfnu ar gyfer yr achlysur, a chyfarfod arni'n llongyfarch Pat. Diolchwn iddi am y 62 mlynedd diwethaf, a braf yw clywed nad yw hi am roi gorau i'r gwaith yn y dyfodol agos.



Aled Davies gyda Pat a'i phriod, Euros



Cacen arbennig ar gyfer yr achlysur



Pat gyda phlant yr ysgol Sul

## Symposiwm rhithiol i nodi 400 mlwyddiant geni Stephen Hughes ('Apostol Sir Gaerfyrddin')

Cyfes o ddarlithoedd yn trafod addysgu'r werin yn y cyfnod modern cynnar gan ganolbwyntio ar addysgwyr o sir Gaerfyrddin. Trefnir gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

23 Tachwedd am 5 o'r gloch

Dr John Aaron

'Thomas Charles, yr addysgwr'

Nid fel addysgwr yr ystyriai Thomas Charles ei hun, ond fel pregethwr. Dywed yr Athro R. Tudur Jones wrth gyfeirio at ei waith cyhoeddus, 'fod ei amrywiol gynlluniau'n canoli ar y Beibl'. Ar wyneb-ddalen ei 'Hyfforddwr' enwog gosododd yr adnod 'Bod yr enaid heb wybodaeth nid yw dda' (Diarhebbion 19:2). Ac ystyr 'enaid' i Charles oedd yr elfen ysbrydol a osodwyd ymhob dyn er mwyn cymdeithasu â Duw. Sut felly y bu i ddylanwad un a oedd mor unlygeidiog yn ei uchelgais lwyddo i'r fath raddau fel y gellid cynnig ddadl gref mai ef yw athro mwyaf ein cenedl?

Archebu Tocyn:

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-zzojdon>

## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 8 – Taith newydd, stori newydd

Darlenn: Rhufeiniaid 4: 9–25;

Hebreaid 12:1–2; Genesis 12:1–9

Roeddwn yn cyfeirio at yr hyn sy'n hanfodol o ran cychwyn taith yr wythnos ddiwethaf, yn benodol, eich bod yn gadael rhywle er mwyn cyrraedd lle arall. Wrth edrych ar destun pennod 12 o Genesis, mae'n amlwg nad taith ddaearyddol yn unig yw hon, hynny yw, fod Abraham yn syml i fynd o un lle i le arall. Mae hon hefyd yn daith o fewn cyd-destun cynnwys Genesis. Nid casgliad o storïau unigol a geir yma, a dyna yw'r perygl sydd ynghlwm wrth edrych ar 'gymeriadau' neu storïau. Maent un ac oll yn rhan o un stori fawr, ac mae galwad Abraham yn arwyddocaol yn y ffordd y mae Duw ei hun yn torri i mewn i fywyd y dyn yma, y teulu yma, mewn ffordd sy'n mynegi ei fwriad i dorri i mewn i fyd toredig.

Hyd yn hyn, rydym wedi cael 11 pennod yn esbonio pam mae'r byd fel ag y mae. Yn y penodau hynny cawn bum cyfeiriad at 'felltith': 3:14 – melltithio'r sarff; 3:17 – melltithio'r tir; 4:11 – melltithio Cain; 5:29 – y felltith oedd ar y tir; 9:25 – melltithio Canaan. Drwy'r cyfan cawn olwg ar ganlyniadau nid yn unig y cefnu ar Dduw sy'n greiddiol i bwy ydym, ond hefyd y gweithredoedd penodol hynny sy'n arwyddo'r cefnu hwnnw. Ond, yn nhair adnod gyntaf Genesis 12, cawn bum defnydd o'r gair bendith: adn. 2 – a bendithiaf di; byddi'n fendith; adn. 3 – bendithiaf y rhai sy'n dyfendithio; bendithir holl dylwythau'r ddaear.

Wrth ystyried hyn, beth bynnag am daith bersonol Abraham, mae'r adnodau hyn yn gyfeiriad at daith sy'n llawer mwy na digwyddiad yn ei hanes ef. Dyma'r addewid i fyd oedd dan felltith: yr addewid fod modd symud o felltith i fendith, ac o ran yr addewid, ceir diffiniad o beth yw bendith. O ran arwyddocâd, mae'r adnodau hyn ym mhennod 12 yn cyhoeddi bod drws yn cael ei agor, ffynnon yn cael ei chyhoeddi, fyddai'n ateb ein hanallu ni i sicrhau enw i

ni ein hunain, i newid ein ffyrdd ein hunain, i newid ein tynged ein hunain. Mae'n arwyddocaol fod un o'r unig rai sy'n cael ei gymeradwyo yn y penodau agoriadol, sef Noa, yr un a 'gafodd ffafr yng ngolwg yr Arglwydd' (6:8), yntau hefyd yn methu ymysgwyo oddi wrth y drwg oedd yn ei natur ef fel ninnau, gan lithro i feddwod ac anfoesoldeb rhywiol (9:21 ymlaen). Yna, i'r byd y tybiwyd ei fod wedi ei olchi gan y dilyw, cawn hanes Babel, ac awydd pobl i wneud enw iddynt eu hunain a sicrhau enwogrydd ac arwyddocâd (11:4).

I'r byd yma, fel i'n byd ni, mae Abraham yn cael dod wyneb yn wyneb â Duw, yr un sy'n medru newid pobl, yn rhoi inni enw, yn rhoi inni etifeddiaeth. O droi yn ôl at adnodau cyntaf pennod 12, medrwn yn awr ddeall arwyddocâd beth mae Duw am ei wneud, ac yna'r ffordd y mae Abraham i ymateb. Rwyf wedi tynnu sylw at yr ymadroddion perthnasol yn yr adnodau:

- 1 **Dywedodd yr Arglwydd** wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a **ddangosaf** i ti.
- 2 **Gwnaf di** yn genedl fawr a **bendithiaf di**; **mawrygaf** dy enw a byddi'n fendith.
- 3 **Bendithiaf** y rhai sy'n dy fendithio, a **melltithiaf** y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear."

Er mai taith a stori newydd i Abraham yw hon, stori am waith Duw ydyw, ac am addewid y bydd ef yn ei sicrhau. Man cychwyn y stori yw Duw ac, wrth gwrs, dyma'r man cychwyn i bob taith ysbyrdol. Wrth ysgrifennu at y Corinthiaid mae Paul yn cyfeirio at y ffaith hon:

os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan – Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr

oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod (adn. 17–19).

Bydd hyn felly'n ddechrau newydd i Abraham, a hefyd yn ddechrau newydd i genedl, ac i 'holl dylwythau'r ddaear'.

A sylwch, mae'r fendith i'r rhai sy'n bendithio Abraham. Yn syml, mae'r rhai hynny sy'n dod at y Duw sydd wedi cynnig bendith yn gyfnewid am felltith. Y Duw a fendithiodd Abraham sydd yn awr yn cynnig bendith i ni, yn 'bendithio' Abraham wrth iddynt ddilyn mewn ffydd ac ufudd-dod y nodweddion hynny yn ei fywyd y mae Duw yn eu cymeradwyo. Sylwch ar gymal cyntaf adnod 4: 'Aeth Abram fel y dywedodd yr Arglwydd wrtho'.

Wedi cyfeirio at Abraham a gweddill 'cewri'r ffydd' yn Hebreaid 11, mae'r awdur yn ein hatgoffa o'r darlun yma o daith, a'r angenrheidrwydd o wneud yn siŵr nad ydym yn cario dim nad oes ei angen, a bod ein golwg ar Iesu (Hebreaid 12:1–2). Trasiedi fwyaf pobl yw gwybod fod yna ddrws, fod yna ffynnon, clywed yr addewid am fendith, ac eto heb weithredu ar bwys yr wybodaeth a'r addewid yna. Byddwn yn dweud ein bod yn ymddiried, ond ddim yn ymneilltuo, ddim yn mynd i mewn i'r stori newydd y mae Duw yn Iesu yn ein gwahodd i'w phrofi.

1. I Paul, gwaith Duw oedd y rheswm y tu ôl i'r hyn ydoedd fel Cristion. Beth yw'r gwaith penodol fyddwch chi'n ei ddisgrifio fel gwaith Duw yn eich bywyd?
2. Byddwn yn aml yn clywed pobl yn defnyddio ymadroddion fel 'cychwyn newydd', awydd i 'ysgrifennu stori newydd' ac yn y blaen. Beth yn hanes Abraham a gweddill y Beibl sy'n gwneud awduriaeth pobl o ddechrau newydd neu stori newydd yn amhosibl?
3. Faint mae cael eich cynnwys 'yn y fendith' o werth i chi – yn ariannol? O ran amser? O ran parodrwydd i goll? O ran parodrwydd i ddiodef?

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 20 Tachwedd am 7.30yh

Yr wythnos hon fe fyddwn yn Llundain. Daw'r canu mawl o'r eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, East Castle Street, dan arweiniad Trystan Lewis

BBC radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 20 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp

Robert Parry yn cyflwyno detholiad o emynau o gymnanfa a gynhaliwyd yng nghapel Bethel, Lerpwl, i ddathlu daucanmlywddiant geni Ieuan Gwyllt  
**Sul, 20 Tachwedd, am 12:00yp**  
Oedfa dan arweiniad Andy Herrick, Cwm-ann



## Ffrwyth gweddi yn amlwg yn Noc Penfro

'Rwy'n credu bod yr hyn y mae'r eglwys yma yn ei wneud yn wych,' meddai Steve wrth i ni rannu te yng nghaffi bore lau Bethel yn Noc Penfro i swm bwrlwm cyson o weithgaredd. Roedd banc bwyd a phrosiect FareShare wedi bod ar agor drwy'r bore; i lawr y grisiau roedd band addoli'r eglwys yn ymarfer tra oedd grŵp crefft yn cael ei gynnal yn yr ystafell arall. Ond, deng mlynedd fer yn ôl, roedd Bethel, eglwys y Bedyddwyr yn Noc Penfro, wedi edwino i grŵp o wyth o aelodau oedrannus yn cyfarfod yn y festri. Mae'r trawsnewidiad sydd wedi digwydd yn ddyledus, yn anad dim, i weddi ffyddlon.

'Dyw pethau ddim yn hawdd!' meddai Mike Bave, bugail yr eglwys ers 2013. 'Dy'n ni i gyd yn gweithio'n galed yma! Ond rydyn ni mor ddiolchgar am yr hyn y mae Duw yn ei wneud yn ein plith ac yn y gymuned hon.'

Bymtheg mlynedd yn ôl, pan oedd Mike – crwt lleol o Hwlfordd – yn dal i fugeilio yn yr Unol Daleithiau, roedd sgysiau'n digwydd ynghylch dyfodol yr eglwys, a sut beth fyddai cau iddyn nhw.

Roedd y gynulleidfa fechan hon yn heneiddio ac adeiladau'r capel yn fawr ac mewn cyflwr oedd yn gwaethygu. Ond roedd un o'r diaconiaid, Maggie, wedi mynd adre ar ôl cyfarfod yn teimlo fod pwysau'n cael eu rhoi arnyn nhw fel eglwys i gau. Aeth i mewn a throir'r radio ymlaen. Roedd pregethwyr yn siarad am Haggai, ac yn arbennig yr adnod sy'n dweud 'mae fy nhŷ i'n ddiffaith' (Haggai 1:4). Wedi ei herio gan hyn, penderfynodd Maggie weddio – ac ymunodd gweddill yr eglwys â hi.

Roedd sawl rhwystr, ond dau amlwg oedd yr adeilad oedd yn pydru a'u hangen nhw am arweinydd – nid eu bod yn gallu fforddio



trwsio'r adeilad na thalu bugail. Ond fe wnaethon nhw weddio am y rhain a gwneud cais am fenthyciad o £40,000 gan Gronfa Adeiladu'r Bedyddwyr. Ar sail hyn, ac o ganlyniad i ostyngiadau gwyrthiol gan adeiladwyr a drysau'n agor yn annisgwyl o ran statws rhestredig y capel, dechreuodd pethau ddigwydd yn sydyn.

Yr un pryd, roedd Mike a'i wraig, Mary, yn hapus yn arwain eglwys yn Boston yn America, heb feddwl yn y byd y byddai Duw yn eu harwain i Gymru eto. 'Ond un tro dyma fi'n dechrau rhoi cyfres o bregethau o lyfr Genesis ar genhadaeth,' cofia Mike, 'gan helaethu ar orchymyn Duw i "ddychwelyd i dir eich tadau", sydd wrth gwrs hefyd yn rhan o anthem genedlaethol Cymru. Ailadroddais y bregeth honno dair gwaith y penwythnos arbennig yna cyn sylweddoli'r trydydd tro fod hon yn neges i ni!'

Ond doedd ganddyn nhw ddim syniad sut fyddai symud i Gymru yn bosib. I Mary, byddai'n golygu delio â mewnfudo i'r Deyrnas Unedig, a doedd gan enwad Mike yn yr Unol Daleithiau ddim eglwys ym Mhrydain. Ar ôl cyfres o ddigwyddiadau annisgwyl a sgysiau ar siawns, fe'u cawson eu hunain yn cael eu dangos o amgylch adeilad Bethel yn Noc Penfro ac yn sylweddoli'n bod Duw fel pe bai'n eu harwain yno. Symudwyd y rhwystrau ymarferol i ffwrdd yn raddol – daeth y fisa, trafodwyd y cwestiynau enwadol a'u setlo, a hyd yn oed y cyllid ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu. Ac yn 2013, cafodd Mike ei sefydlu'n weinidog yr eglwys.

'Ers hynny rydym wedi bod wrthi'n adeiladu'n araf,' meddai Mike wrth fyfrio. 'Mae llawer o'n gweinidogaeth wedi ei adeiladu o gwmpas bwyd.' Yn ogystal â'r caffi a'r banc bwyd mae'r eglwys hefyd yn rhedeg bwyty 'talubeth-allwch chi' sy'n gweini cinio rhost bob wythnos a digwyddiadau gwyliau ysgol i blant o'r dref sy'n cynnwys digon o fwyd. 'Mae hon yn ardal ddfreintiedig, ond mae ganddi gymuned gref. Rydyn ni wedi gorfod gwneud llawer o waith i wneud yr adeilad yn fwy croesawgar i bobl sydd jyst ddim wedi arfer â lleoliad capel hen ffasiwn ac wedi rhoi lifft i mewn i gael mynediad rhydd i fyny'r grisiau, cypyrddau enfawr i'r banc bwyd a mwya.'

Ac mae angen gweddi o hyd: efallai y bydd proses dair blynedd o wneud cais i gael gwared â'r rhesi caled o seddi pren yn agosáu at ei gwblhau, gyda chyfarfodydd allweddol yn digwydd yr hydref hwn.

'Wrth gwrs, mae'n bleser gweld yr eglwys yn tyfu,' meddai Mike, â gwen dyner wrth iddo ddweud wrtha i eu bod nhw fel arfer yn gynulleidfa o dros 40 o bobl ar ddydd Sul erbyn hyn. 'Ond y llawenydd mwya yw gweld pobl yn dod i ffydd – dyna sail y cyfan i ni mewn gwirionedd.'

Mae'n rhyfeddol meddwl bod ffydd rhai o'r credinwyr newydd hyn yn ddyledus i raddau helaeth i weddi ffyddlon a pharhaus y grŵp bach o gredinwyr yr oedd Bethel wedi edwino iddo bymtheg mlynedd yn ôl – a'r hyn y mae Duw wedi ei wneud gyda hynny.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Hwn yw brenin yr Iddewon

### Gwedd

Arglwydd, diolchwn i ti heddiw am y fraint o gael edrych 'gyda'r angylion fry, i drefn yr iachawdwriaeth' sydd yng Nghrist. Pe medrem ddim ond clustfeinio ar ganeuon lluoedd maith y nef, gwyddom y caem glywed eu mawl yn datgan mai 'Teilwng yw yr Oen'. Cynhyrfa ynom, drwy dy Ysbryd Glân, addoliad sydd yn deilwng ohonot. Amen.

### Cyflwyniad

Yn ôl y calendr eglwysig, y Sul olaf cyn yr Adfent yw diwedd y flwyddyn eglwysig, a chanolbwynt yr addoliad yw goruchafiaeth a brenhiniaeth Crist.

### Emyn 323: 'Mawr oedd Crist'

**Darlleniad – Jeremeia 23:1-6 'Gobaith i'r Dyfodol'**

Yn ôl Calvin, arwydd bod barn Duw ar fin disgyn ar genedl yw bod yr Arglwydd yn caniatáu i arweinwyr anghyfiawn eu llywodraethu.

Roedd Jeremeia eisoes wedi gweld dinas Jerwsalem yn cael ei meddiannu gan elynion. Dygwyd y brenin Jehoiachin a'i dywysogion ymaith mewn caethglud i Fabilon, gan adael Sedeceia ar yr orsedd am ychydig fisoedd.

Doedd dim byd llwfr am Jeremeia wrth iddo gyhoeddi, i'r arweinwyr oedd ar ôl, fod asesiad yr Arglwydd o'u dull o lywodraethu yn anffafriol iawn. Bugeiliaid esgeulus a drygionus oedd Sedeceia a'i griw. Eu hesgeulustod hwy arweiniodd at wasgaru'r praid. Er i'r Arglwydd, creawdwr a gwaredwr ei bobl, addo ymweld â nhw, nid y gobaith am gael amddiffyn eu hawliau fyddai nodwedd amlwg ei ymweliad (ystyr yr enw Sedeceia yw 'yr Arglwydd yw fy nghyfiawnder' neu, efallai, 'yr Arglwydd yw'r un sy'n amddiffyn fy hawliau'). Deuai, fe ddeuai'r Arglwydd i'w plith, ond nid i 'amddiffyn eu hawliau' hunanol ond i fod iddynt yn gyfiawnder!

Er hynny, er i'r arweinwyr fethu gwarchod pobl yr Arglwydd, addawodd yr Arglwydd y byddai ef ei hun yn eu cynnull, yn eu diogelu ac yn darparu bugeiliaid cymwys i'w gwarchod a'u diogelu. Mewn darlun nodweddiadol o obeithion y proffwydi, byddai 'blagurn', tarddiad newydd o hen gyff, yn caeleiddatgelu. Byddai eiddyfodiad yn cael ei adnabod fel llywodraethwr doeth ac yn weithredwr barn a chyfiawnder. Byddai Duw ei hun yn yr ymweliad grasol hwn i achub a diogelu ei bobl. Byddai efe ei

hun, yn wahanol i Sedeceia anffyddlon, yn Arglwydd a fyddai'n gyfiawnder i'w bobl.

Diolch i Dduw, fe gyflawnwyd y gobeithion gorfoleddus hyn yn lesu Grist.

### Emyn 276: 'O'r nef y daeth'

**Darlleniad – Luc 23:32 'Y brenin ar bren'**

### Urddas

Gwelsom eleni y rhwysg oedd yn amgylchynu angladd y Frenhines Elisabeth. Cawn weld drachefn arddangosfa o urddas brenhinol a grym y wladwriaeth pan gaiff y Brenin Charles ei goroni y flwyddyn nesaf. Bydd diemwntau drudfawr, coronau a gorseddffainc aur yn cael eu harddangos, a bwriad y rhwysg fydd ein tywys i ryfeddu at urddas a statws dyrchafedig y brenin newydd.

Nid er mwyn cyhoeddi statws yn unig y gwneir hyn, ond er mwyn cuddio'r ffaith mai cyfyng yw gallu, a chul yw ffiniau, pob teyrnas ddaearol. Ymdrech bob amser ydyw i oreuro llwch meidroldeb.

Mor wahanol yw'r datganiadau a wnaed am yr Un y mae'r Arglwydd wedi ei osod yn Feseia am byth (Salm 2).

### Y brenin

Na, ni welwyd erioed frenin tebyg i frenin gostyngedig pen Calfaria, a esgynnodd i'w groes, o'i wirfodd, i ddwyn y greadigaeth i gymod â Duw. Ni welwyd erioed orseddffainc debyg i bren amrwd croes Calfaria na choron debyg i'r goron ddrain. Nid estynnwyd teyrnwialen aur i'r brenin lesu, ond derbyniodd hoelion dur gan ei gread. Nid anrhydeddwyd ef gan gorau a bandiau urddasol. Yn hytrach, amgylchwyd ef gan glochdar gorfoleddus ei elynion.

Gwawdiodd yr arweinwyr; gwatwar wnaeth y milwyr; cablu a wnaeth un o'r drwgweithredwyr a groeshoeliwyd gydag ef. Ni chodwyd llwncdestun iddo o'r gwinoedd drudfawr gorau, ond cynigiwyd diod o win sur, finegr chwerw, i gyd-fynd â'i ddioddefaint chwerw.

Ni ddeallodd y dyrfa 'yr hyn a wnaethent' y diwrnod hwnnw.

Ar y lefel fwyaf arwynebol, dyma oedd cyflawniad addewid lesu i'w ddisgyblion fod dioddefaint, gwatwar, marwolaeth ac atgyfodiad yn ei wynebu yn Jerwsalem (Luc 9:22, 44; 18:31). Ni ddeallodd y dyrfa wrth ei draed fod yn 'rhaid i Fab y dyn ddiodef y pethau hyn'. Nid oeddent yn deall bod 'Exodus' newydd, rhyddhad y ddynolryw, yn digwydd ger eu bron (Luc 9:31), a bod

oen y Pasg wedi ei arwain yn fud i'r lladdfa (Eseia 53), fod taliad eu rhyddhad, fod eu Meichiau ei hun, yn talu pris eu pridwerth gerbron y byd.

Ni chlywyd erioed gyfarchiad oedd â'r fath anwylddeb yn perthyn iddo ag a glywyd pan lefodd lesu, 'O Dad'. Ni chlywyd tosturi tebyg i'r weddi 'maddau iddynt'. Ni ddangoswyd mewn ffurf mor eglur erioed mor urddasol, mor hael, mor dyner yw'r Arglwydd lesu yn ei ymwneud â phechaduriaid.

Os oedd y sefydliad crefyddol yn ei gasáu am ei fod yn ffrind pechadur, gallai un o'r drwgweithredwyr a groeshoeliwyd gydag ef lawenhau mai felly yr oedd. Heb haeddiant, heb allu, heb obaith i gyfrannu dim i wella ei gyflwr gerbron Duw, heblaw am ei gri edifeiriol, 'lesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas' croesawyd un a fu'n ei gablu funudau ynghynt. Yn nyfnder ei boenau, ar gyrion angau ei hun, clywodd lais ei feistr yn addo iddo y câi rannu Parawdys ei orffwysfa gydag ef 'heddiw'.

Diolch Iddo! Nid yw trugaredd lesu wedi lleihau dros yr oesoedd.

O ddirgelwch ei goncwest ar Galfaria (Colosiaid 2:14-15), dyrchafwyd Pen-ymeraudwr yr oesau: 'Am hynny tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw lesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod lesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.'

Ac iddo ef, Brenin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi, y byddo'r gogoniant a'r gallu yn yr eglwys, drwy'r nef a'r ddaear, yn oes oesoedd. Amen.

### Emyn 482: 'Ai am fy meiau i'

### Gwedd

O Arglwydd lesu Grist, yr hwn wyt yn wir Dduw ac yn wir ddyn, buost farw am ein pechodau ar y groes ac atgyfodaist o afael marwolaeth, ac yr wyt yn awr yn fyw ac yn teyrnasu am byth fel ein cyfryngwr a'n grasol frenin. Yn dy ras maddau i ni ein pechodau ac eiriol ar ran troseddwyd tlawd, gwna ni'n gyfiawn a'n sancteiddio, teyrnasa ynom, ynghyd â'th Ysbryd Glân, a thywys ni i fywyd tragwyddol. Casgla dy eglwys dragwyddol ynghyd o bob gwlad a chenedl a llwyth o dan y nef. Rho i ni lywodraeth dda a chadw ni rhag grym y gelyn cas; oherwydd yr wyt ti yn fyw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, byth bythoedd. Amen.

(Addasiad o weddi o *Die pommersche Kirchen-Ordnung und Agenda*, pp. 289-90, <https://acollectionofprayers.com/tag/christ-the-king/>)

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru